Mae hwn wedi'i dynnu'n ôl gan nad yw bellach yn gyfredol.



Papur Briffio Seneddol

# Ein gwaith yng Nghymru

## Pwy ydym ni

Fel rheolydd annibynnol elusennau Cymru a Lloegr, ein rôl yw darparu'r dull gorau posibl o reoleiddio elusennau er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau. Rydym yn rhoi cryn bwyslais ar sicrhau bod ymddiriedolwyr yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol gan felly hybu ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau. Rydym yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â'r sector; drwy gydweithio gallwn gynnig ystod eang o ganllawiau a chymorth i elusennau mewn ffordd hygyrch ac effeithiol. Rydym yn rhannu'r un nod â Llywodraeth Cynulliad Cymru sef sicrhau bod elusennau yn cael yr effaith fwyaf yma yng Nghymru.

Mae ein Swyddfa Cymru, a leolir yng Nghasnewydd, yn darparu gwasanaeth wedi'i deilwra i'r 11,000 o elusennau yng Nghymru ac mae'n arwain ein gwaith partneriaeth ac ymgysylltu yng Nghymru.

## Sut rydym yn helpu elusennau

**Annog tryloywder ac atebolrwydd trwy gynnal y Gofrestr Elusennau**

- Rhaid i bob elusen yng Nghymru a Lloegr sy'n bodloni gofynion penodol gofrestru.
- Mae 190,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr, gyda 5,000 o gofrestriadau newydd bob blwyddyn (cofrestrwyd 187 o elusennau newydd yng Nghymru y flwyddyn ddiwethaf).
- Mae'n ofynnol i elusennau cofrestredig roi gwybodaeth allweddol i'r Comisiwn unwaith y flwyddyn, gyda gwahanol ofynion i elusennau yn seiliedig ar eu maint – disgwyliwn mwy gan yr elusennau mwyaf.
- Mae'r gofrestr ar gael ar ei gwefan ac yn cael ei defnyddio'n helaeth gan y cyhoedd, rhoddwyr a buddiolwyr i wybod mwy am ddibenion, incwm ac ymddiriedolwyr elusennau.
- Cafodd gwasanaeth cofrestru ar-lein ei lansio'n ddiweddar a fydd yn gwneud cyflwyno ceisiadau yn gyflymach ac yn symlach i nifer o elusennau.

**Moderneiddio elusennau drwy newid eu dibenion a'u dull llywodraethu**

- Mae dogfen lywodraethol gan bob elusen sy'n diffinio eu dibenion, eu pwerau ac yn pennu sut y mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr redeg yr elusen.
- Pan fydd ymddiriedolwyr eisiau newid dibenion yr elusen neu sut y defnyddir yr arian, fel arfer bydd angen cydsyniad y Comisiwn arnynt.
- Yn y sefyllfaoedd hyn rydym yn cydweithio â'r ymddiriedolwyr i gael hyd i ddiben arall sy'n cynnig modd iddynt helpu buddiolwyr mewn ffordd sy'n berthnasol ond sydd hefyd yn cyd-fynd ag ysbryd gwreiddiol y rhodd.
- Mae Swyddfa Cymru yn cymryd rhan weithredol yn y broses hon o foderneiddio elusennau er mwyn sicrhau bod y budd cyhoeddus mwyaf posibl yn deillio o'r asedau.

Mae hwn wedi'i dynnu'n ôl gan nad yw bellach yn gyfredol.



Enghraifft: Yn ddiweddar, cafodd Cynllun ei wneud sy'n caniatáu i hen ysgol oedd wedi cau gael ei defnyddio fel canolfan gymunedol yn Nhrewyddel. Mewn pentref heb swyddfa bost, tafarn neu siop leol roedd yn hanfodol bod y cyfleuster hwn yn cael ei warchod i'w ddefnyddio gan y gymuned.

**Sicrhau effeithiolrwydd mwyaf elusennau trwy awdurdodi gweithredu penodol sydd er eu lles nhw**

- Weithiau bydd angen ein cydsyniad ymlaen llaw ar elusennau i wneud rhywbeth y teimlant sydd er lles gorau'r elusen.
- Mae pŵer gan y Comisiwn i awdurdodi gwaredu tir, talu ymddiriedolwyr, gwario cyfalaf, penodi ymddiriedolwyr ac achosion llys.
- Gellir ymarfer y pwerau hyn trwy Orchmynion cyfreithiol neu Gynlluniau. Mae terfyniadau cyfreithiol ond yn gyffredinol y cwestiwn i'w ateb yw beth sydd er lles gorau'r elusen a'i buddiolwyr yn awr ac yn y dyfodol.

Enghraifft: yng Nghaerdydd nid oedd elusen rhoi gwobrau yn cael ei gweinyddu'n briodol gan ei hymddiriedolwyr ac nid oedd yr arian yn cael ei ddosbarthu i fuddiolwyr. Penodwyd Prifysgol Caerdydd fel ymddiriedolwr a oedd yn golygu ei bod yn gallu dechrau rhoi grantiau i fyfyrwyr yn unol â dibenion yr elusen.

**Sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau elusennol trwy roi cyngor ac arweiniad**

- Mae swyddogion achos arbenigol a phrofiadol gan Swyddfa Cymru i ddarparu cyngor wedi'i deilwra i'r ymholiadau.
- Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar sut i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol, cyngor cyfrifyddu a chymorth cyffredinol i ymddiriedolwyr.

Enghraifft: Roedd capel yn Sir Gaerfyrddin wedi mynd â'i ben iddo ac yn wynebu cael ei gau ar sail diogelwch. Roedd cyngor a ddarparwyd gan y Comisiwn wedi cynnig modd i'r ymddiriedolwyr wario rhan o'u cyfalaf ac mae'r capel yn cael ei adnewyddu bellach.

- Os yw elusennau, eu hasedau neu eu buddiolwyr mewn perygl, byddwn yn cynnig cyngor ac arweiniad i wella dulliau llywodraethu a datrys materion - ac wrth gwrs os oes troseddu bwriadol neu os yw'r elusen wedi cael ei hecsploetio byddwn yn gweithredu'n gyflym ac yn drwyadl.

## Sut gall elusennau gysylltu â ni

**Trwy ein gwefan** Mae ein gwefan yn cael mwy na 40 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn a dyma'r ffynhonnell orau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am elusennau a'r Comisiwn. Ynghyd â chael arweiniad ar bob agwedd ar redeg elusen, gall y rhai sy'n ymweld â'r wefan chwilio'r gofrestr elusennau ar-lein. Gall elusennau cofrestredig ffeilio eu cyfrifon a'u gwybodaeth gyda ni ar-lein, a llwytho i lawr ffurflenni i'w helpu i wneud cais am ein cydsyniad os oes angen. Hefyd, mae adroddiadau a diweddariadau ar faterion sy'n effeithio ar y sector a chysylltiadau â sefydliadau eraill. Cewch wybod mwy drwy ymweld â www.charitycommission.gov.uk.

Mae hwn wedi'i dynnu'n ôl gan nad yw bellach yn gyfredol.



**Dros y ffôn** ar 0845 3000 218 - mae ein canolfan gyswllt yn siarad â mwy na 300,000 o bobl bob blwyddyn, yn delio â cheisiadau am wybodaeth ac ymholiadau gan ymddiriedolwyr, ac yn cyfeirio galwyr i sefydliadau perthnasol.

# Pryderon am elusennau

## Mae gan etholwr bryderon am elusen, beth ddylai ei wneud?

Os yw pryderon yn codi am elusen mae'n bwysig, lle bynnag y bo'n bosibl, bod ymdrech yn cael ei wneud i ddatrys y pryderon hynny gyda'r elusen yn uniongyrchol. Mae modd datrys nifer o faterion ac anghydfodau heb ymyrraeth y Comisiwn Elusennau.

## Pryd fydd y Comisiwn Elusennau yn ymyrryd?

Os ydych chi neu'ch etholwr yn pryderu am weithrediad elusen gofrestredig sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr, gallant gyflwyno cwyn i ni. Yn gyffredinol, bydd y Comisiwn Elusennau yn dilyn cwynion os oes perygl difrifol o niwed mawr neu i'r elusen, ei hasedau, ei buddiolwyr neu ei henw da neu gamddefnydd sylweddol. Byddwn yn ymyrryd dim ond os ydym yn credu bod angen gwneud hynny ac mae'n gam cymesur i'w gymryd.

Mae'r amgylchiadau y byddem fel rheol yn eu hystyried yn rhai sy'n peri perygl difrifol o niwed yn cynnwys y rhai lle mae tystiolaeth o'r canlynol:

- Cysylltiadau â sefydliadau gwaharddedig
- Cysylltiadau â therfysgaeth, neu gefnogi terfysgaeth
- Camddefnyddio elusen gyfreithlon i feithrin trosedd neu eithafiaeth
- Twyll neu wyngalchu arian
- Cam-drin buddiolwyr sy'n agored i niwed
- Rhoi buddiolwyr mewn perygl trwy fethu â gweithredu mesurau diogelwch digonol
- Ffug elusennau
- Afreoleidd-dra ariannol

## Pryd na fydd y Comisiwn Elusennau yn ymyrryd?

Mae ein pwerau wedi'u cyfyngu gan y gyfraith elusennau, yr annibyniaeth a roddir i gyrff llywodraethu elusennau a chylch gorchwyl rheolyddion ac asiantaethau eraill. Ni all y Comisiwn Elusennau ymchwilio i faterion troseddol neu dreth. Os cawn wybod am drosedd neu achos honedig o osgoi talu treth gallwn drosglwyddo manylion y gŵyn i'r heddlu neu'r awdurdod priodol. Ein hunig rôl fydd asesu a fu achos o gamymddygiad neu gamreoli yng ngweinyddiad yr elusen ac ai hyn sydd wedi cynnig modd i'r troseddoldeb ddigwydd.

Ni allwn ddilyn cwynion sy'n cael eu gwneud gan unigolyn am y gwasanaethau y maent wedi'u derbyn gan sefydliad elusennol, nac anghydfodau cyflogaeth. Mae'r gyfraith elusennau hefyd yn ein gwahardd yn benodol rhag ymyrryd mewn anghytundebau ac anghydfodau rhwng ymddiriedolwyr neu noddwyr ynghylch cyfeiriad a rheolaeth elusen.

Mae hwn wedi'i dynnu'n ôl gan nad yw bellach yn gyfredol.



## Sut ydw i'n cwyno i'r Comisiwn Elusennau?

Os oes cwyn gennych chi, neu etholwr, am elusen nad ydych wedi llwyddo i'w datrys yn uniongyrchol ac y credwch sydd wedi'i chynnwys o fewn cylch gorchwyl y Comisiwn Elusennau, gofynnwn i chi ysgrifennu atom a chyflwyno cwyn ffurfiol. Mae cynnwys gwybodaeth arbennig, lle'n bosibl, yn ein helpu i ddelio â'ch cwyn yn gyflym ac yn drwyadl. Dylech gynnwys:

- Enw a rhif cofrestru'r elusen dan sylw
- Natur y gŵyn, gan gynnwys unrhyw honiadau penodol y dymunwch eu gwneud
- Pwy sy'n ymwneud â'r mater a beth yw ei swydd yn yr elusen
- Yr effaith y mae'r mater yn ei chael ar yr elusen a'i buddiolwyr
- Unrhyw gamau y mae'r elusen eisoes wedi'u cymryd mewn ymateb i'ch pryderon
- Unrhyw gyhoeddusrwydd, rydych yn ymwybodol ohono, sy'n ymwneud â'r mater
- Copïau o unrhyw dystiolaeth ddogfennol sydd gennych
- Manylion unrhyw ohebiaeth flaenorol ar y mater hwn gyda chyrff cyhoeddus
- Eich enw, cyfeiriad, e-bost a rhif cyswllt ac unrhyw gyswllt sydd gennych â'r elusen dan sylw

E-bostiwch ni yn uniongyrchol yn enquiries@charitycommission.gsi.gov.uk, neu ffoniwch y tîm Materion Cyhoeddus ar y rhif a ddangosir yn y papur briffio.

## Fydd yr elusen yn gwybod pwy sydd wedi cwyno?

Cyn belled â phosibl ceisiwn ddiogelu cyfrinachedd a phreifatrwydd achwynwyr. Fodd bynnag, gall fod achosion lle mae'n rhaid datgelu pwy sydd wedi cwyno, neu bydd hyn yn dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad. Gofynnwn i achwynwyr roi gwybod i ni a ydynt yn rhoi eu caniatâd i ni eu hadnabod ac a fyddant yn caniatáu i ni roi eu tystiolaeth yn uniongyrchol i'r elusen ei hun. Er y byddwn yn ceisio cynnal cyfrinachedd achwynwyr, rydym yn rhwymedig gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac mewn rhai amgylchiadau bydd rhaid i ni ddatgelu pwy ydynt.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd y Comisiwn Elusennau yn asesu eich achos, ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd, ac yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Gellir penderfynu fel a ganlyn:

- Nid yw unrhyw faterion rheoleiddio yn codi ond gall fod yn ddefnyddiol i drosglwyddo'r pryderon i asiantaethau eraill
- Nid yw materion rheoleiddio yn codi i raddau digon difrifol i gynnwys y Comisiwn Elusennau
- Mae materion rheoleiddio yn codi y credwn y gellir eu datrys trwy gymorth a chefnogaeth
- Mae'r materion a godir yn ddigon difrifol i gyfiawnhau cychwyn ymchwiliad

Ceisiwn sicrhau bod ymholiadau gan ACau ac ASau yn cael ymateb cyn pen deg diwrnod.  Weithiau bydd angen mwy o amser arnom i ystyried y mater rydych wedi'i godi ond byddwn yn parhau i geisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar ein cynnydd o fewn yr amserlen honno.

Mae hwn wedi'i dynnu'n ôl gan nad yw bellach yn gyfredol.



## Beth sy'n digwydd os ydych yn canfod bod problem ddifrifol yn yr elusen?

Mae ystod o bwerau gennym y gallwn eu defnyddio os oes problem ddifrifol iawn yn yr elusen, a bydd yr ymateb yn gymesur ac yn ddefnyddiol. Os yw ein hasesiad yn awgrymu mai dyma yw'r achos, byddwn yn cychwyn ymchwiliad statudol o dan adran 8 Deddf Elusennau 1993. Mae hwn yn gam difrifol ac nid yn un rydym yn ei gymryd ar chwarae bach. Os ydym yn cychwyn ymchwiliad, mae'n rhoi pwerau i ni gymryd camau gweithredu rheoleiddio amrywiol mewn perthynas â'r elusen. Mae'r rhain yn cynnwys rhewi cyfrifon elusen, diarddel ymddiriedolwyr a gweithwyr, penodi ymddiriedolwyr newydd a gwahardd unrhyw weithredu neu godi arian pellach. Yn yr achosion mwyaf difrifol gallem benodi rheolwr dros dro i gymryd rhai, neu holl bwerau'r ymddiriedolwyr. Pan fydd ein hymchwiliad wedi'i gwblhau byddwn yn paratoi adroddiad ymchwiliad a fydd yn argymell neu'n gofyn am weithredu pellach. Os oes angen byddwn yn parhau i fonitro'r elusen dan sylw er mwyn sicrhau nad yw'r problemau'n codi eto.

## Pa wybodaeth alla i ei disgwyl gennych chi?

Rydym eisiau sicrhau bod ein prosesau mor dryloyw ac mor hygyrch ag y bo modd. Fodd bynnag, mae dyletswydd gofal gennym i'r elusennau rydym yn eu rheoleiddio ac ni allwn ryddhau gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol, yn enwedig tra bo ymchwiliad yn mynd rhagddo. Byddwn yn rhoi cymaint o wybodaeth i chi ag y gallwn gan ddiogelu hawliau'r holl bartïon. Hefyd rydym yn hapus i gwrdd â chi a gwnawn ein gorau i ateb eich cwestiynau. Pan fydd ymchwiliad wedi'i gwblhau byddwn yn anfon copi o'n hadroddiad ymchwiliad atoch (sy'n cael ei gyhoeddi ar ein gwefan) a byddwn yn hapus i gwrdd â chi a thrafod unrhyw bryderon sydd heb eu datrys.

## Faint fydd hyn yn ei gymryd?

Mae'r Comisiwn Elusennau yn ceisio gorfodi rheoleiddio mewn ffordd deg a chymesur. Hefyd mae angen i ni gydweithio ag asiantaethau eraill yn aml sydd efallai â rôl i'w chwarae yn y pryderon am elusen. Am y rheswm hwn rydym yn gweithio ar sail achos unigol ac nid oes unrhyw amserlen benodol gennym ar gyfer ymchwiliadau neu achosion. Cewch yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr achosion sydd o ddiddordeb i chi.

## Sut galla i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y sector elusennau?

Os hoffech gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y sector elusennau gallwch danysgrifio i'n gwasanaeth e-fwletin Seneddol. Cewch ddiweddariadau rheolaidd gyda'r newyddion diweddaraf o'r sector elusennau a gwybodaeth ar adroddiadau a chyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau sydd ar y gweill. Gallwch edrych ar yr adran Materion Cyhoeddus ar ein gwefan hefyd. Mae ein holl newyddion, papurau briffio ac adroddiadau diweddaraf i'w gweld yno yn ogystal â chanllawiau a chyngor pellach i ACau, ASau a'u staff.

Mae hwn wedi'i dynnu'n ôl gan nad yw bellach yn gyfredol.



## Beth os oes angen gwybodaeth fwy manwl arnaf am elusen neu'r sector elusennau?

Mae ein huwch aelodau staff bob amser yn hapus i gwrdd ag ACau neu ASau i'w briffio ar fater arbennig, mynd i'r afael â phryderon penodol neu drafod gwaith y Comisiwn Elusennau yn gyffredinol. Pe byddai cyfarfod o'r fath o ddefnydd i chi mae croeso i chi gysylltu â'n Swyddfa Seneddol neu Swyddfa Cymru gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

**Andrew Rudd, Rheolwr Materion Cyhoeddus**
Ffôn: 020 7674 2322
E-bost: andrew.rudd@charitycommission.gsi.gov.uk

**Rosie Stokes, Pennaeth Cyfathrebu Swyddfa Cymru**
Ffôn: 01633 225510
E-bost: rosie.stokes@charitycommission.gsi.gov.uk


# Y Sector Elusennau yng Nghymru: rhai ffeithiau a ffigurau

## 1. Maint ac Incwm y Sector

Mae **9006** o elusennau cofrestredig yng Nghymru (Ebrill 2008) gyda **42,197** o ymddiriedolwyr yn gweithio yma. Y flwyddyn ddiwethaf cafodd 187 o elusennau newydd eu cofrestru yng Nghymru.

Mae gan elusennau Cymru gyfanswm incwm o **£981,986,033** a chyfanswm gwariant o **£941,437,648**. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o elusennau (55%) yn weddol fach gydag incwm o lai na £10,000.

**Dadansoddiad o Elusennau yn ôl Incwm**



Mae hwn wedi'i dynnu'n ôl gan nad yw bellach yn gyfredol.




Dim ond 4% sydd ag incwm o fwy na £500,000. Yr elusennau canlynol yw'r elusennau mwyaf yng Nghymru:

| Rhif Cof | Enw'r Elusen | Incwm £ |
|---|---|---|
| 1034245 | Cyngor Celfyddydau Cymru | £38,645,000 |
| 525774 | Amgueddfa Genedlaethol Cymru | £29,685,000 |
| 1073332 | CBAC Cyfyngedig | £26,600,000 |
| 218093 | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | £26,096,429 |
| 702290 | Cartrefi Cymru Cyfyngedig | £18,820,000 |
| 221538 | Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig | £17,273,049 |
| 517149 | Opportunity Housing Trust | £17,164,800 |
| 1060458 | Canolfan Mileniwm Cymru | £13,582,000 |
| 525775 | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | £13,325,000 |
| 1046763 | Perthyn | £11,567,553 |

## 2. Dadansoddiad yn ôl Awdurdod Unedol

Mae'r nifer fwyaf o elusennau ym Mhowys (cyfanswm o 1005) tra bo'r nifer lleiaf ym Mlaenau Gwent (105).

**Dadansoddiad o Elusennau ym mhob Awdurdod Unedol**




Mae hwn wedi'i dynnu'n ôl gan nad yw bellach yn gyfredol.



## 3. Dadansoddiad yn ôl Math

Mae mwy na 4000 o elusennau yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant, bron dwbl y maes gwaith nesaf sef dibenion elusennol cyffredinol.


**Dadansoddiad o Elusennau yn ôl Math**




## 4. Dadansoddiad yn ôl Grwpiau Defnyddwyr

Plant a phobl ifanc yw’r dosbarth buddiolwyr mwyaf yng Nghymru gyda mwy na 4,500 o elusennau yn gweithio yn y maes hwn. Pobl o dras ethnig neu hiliol arbennig sy’n ffurfio’r grŵp buddiolwyr lleiaf gyda dim ond 444 o elusennau yn gweithredu yn y maes hwn.

**Dadansoddiad o Elusennau yn ôl Dosbarth Buddiolwyr**




Mae hwn wedi'i dynnu'n ôl gan nad yw bellach yn gyfredol.



## 5. Dadansoddiad yn ôl Gweithgaredd

Y tri phrif faes gwaith yng Nghymru yw darparu gwasanaethau, adeiladau a chyfleusterau ac adnoddau dynol gyda mwy na 6800 o elusennau yn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn.

**Dadansoddiad o Elusennau yn ôl gweithgareddau**




**Andrew Rudd, Rheolwr Materion Cyhoeddus**
Ffôn: 020 7674 2322
E-bost: andrew.rudd@charitycommission.gsi.gov.uk

**Rosie Stokes, Pennaeth Cyfathrebu Swyddfa Cymru**
Ffôn: 01633 225510
E-bost: rosie.stokes@charitycommission.gsi.gov.uk